EISTEDDFOD CYNWYL ELFED 2019

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Cynwyl Elfed a'r Cylch ar nos Wener, Ionawr 25ain. Dechreuwyd yn eithaf prydlon, ychydig ar ôl 5 o'r gloch, gyda'r plant lleiaf yn cystadlu, ac aeth y cystadlu ymlaen hyd nes wedi 1 o'r gloch fore Sadwrn. Cadwyd y beirniaid yn brysur trwy'r nos – sef Gwenda Owen, gyda help ei gŵr Emlyn Dole ar y Canu, Iola Wyn ar yr Adrodd a'r Llên, Delyth Thomas ar y Coginio a'r Gwaith Llaw a Dafydd Evans ar y Dawnsio Gwerin.

Roedd Tomos Davies wedi beirniadu'r Arlunio yn gynt yn yr wythnos, ac roedd y gwaith yn cael ei arddangos o amgylch y neuadd. Beirniadwyd cystadleuaeth y Gadair, sef darn o farddoniaeth ar y testun "Plannu", gan Ruth Davies. Roedd tri ar ddeg wedi cystadlu, a'r enillydd oedd Helen Phillips o Gaerfyrddin. Rhoddwyd y gadair eleni gan deulu y diweddar Eileen a Desmond James, Bryn Iwan – cefnogwyr brwd i'r eisteddfod ar hyd y blynyddoedd. Rhoddwyd Tlws yr Ifanc gan Ann a Keith Evans o Langynnwr, a'r buddugwr oedd Daniel Gwyn Evans o Fryn Iwan.

Llywydd yr eisteddfod oedd Bethan Hopkins Jones o Lanllwni – un a gafodd ei magu yng Nghynwyl a bu'n cystadlu ers yn fach yn yr eisteddfod.

Rhai eraill a fu'n brysur drwy'r nos oedd yr arweinyddion, sef Ann Evans, Elsbeth Page, Rhiannon Mathias ac Eifion Thomas, ac hefyd y gyfeilyddes Helen Evans.

Noson hwylus a llwyddiannus unwaith eto.